Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 47 Gwanwyn 2019



**'Nid yw Ef yma: y mae wedi ei godi'**

*Annwyl gyfeillion,*

Heddiw mae sylwebwyr gwleidyddol yn ddieithriad yn darogan bod trafferthion o bob math yn sicr o ddod i'n hwynebu. Mae hyd yn oed y rhai sy'n dadlau o blaid Brexit yn cydnabod, yn y tymor byr, y bydd yn effeithio ar gymunedau ledled Ynysoedd Prydain. Beth bynnag fydd pen draw'r trafodaethau, mae'r ansicrwydd eisoes wedi effeithio ar benderfyniadau nifer o gwmnïau sylweddol ynglŷn â'u perthynas a'u buddsoddiadau yn Ynysoedd Prydain erbyn canol mis Mai fan bellaf. Ac ar bob llaw mae pryder, ansicrwydd ac ofn dwfn yn rheibio'n dychymyg. Mae ofn ac ansicrwydd yn brofiad dwys a real i lawer o'n cyd-Gymry.

**Fel pobl sy'n proffesu dilyn yr Arglwydd Iesu Grist, beth ddylai ein hymateb fod?**

Yn gyntaf, nid yw'n opsiwn gennym o gilio i fyd 'ysbrydol' sydd rywsut wedi ymddihatru oddi wrth bob cyfrifoldeb daearol.

Y mae'n rhaid i ni gydnabod bod ansicrwydd ac ofn am yfory yn rhan o'n cymunedau, o fywyd teuluoedd sy'n ymdrechu i dalu eu ffordd, i bobl sy'n colli taliadau budd-dâl ar sail asesiadau anghyfiawn neu beirianwaith annigonol. Dyma ein Cymru ni. Dyma brofiad nifer ohonom.

**Sylweddoliad Ffydd**

Ni allwn gilio. Ni ddylem geisio ymgilio oddi wrth realiti'n byd.

Wedi'r cyfan nid aros yn hyfrydwch diogel nef y nefoedd yn derbyn y mawl a haeddai a wnaeth Duw'r nefoedd. Credwn ei fod wedi Ymgnawdoli yn Iesu Grist. Credwn ei fod wedi gwisgo natur ddynol, egwan a'i fod wedi ei brofi ym mhob peth fel ninnau. I fyd fel hwn y daeth Goleuni'r Byd – Iesu Grist.

Ac i'n byd ni yr anfonodd ei Ysbryd Glân.

A gogoneddu'r Crist yw priod waith yr Ysbryd Glân.

I fyd fel hwn anfonwyd disgyblion Iesu Grist er mwyn bod yn 'halen ac yn oleuni' yn y byd.

Ni allwn, ac ni ddylem, ysgaru Ymgnawdoliad Iesu Grist, cenhadaeth Duw, gweithgarwch parhaol yr Ysbryd Glân a phwrpas iachusol yr eglwys.

Ni allwn wahanu 'beth wnaeth Duw trosom' oddi wrth 'beth mae Duw am ei wneud trwom'.

**Rhybudd**

Nid ydym yn honni bod y goleuni'n deillio ynom. Adlewyrchu'r Goleuni sydd yng Nghrist yw'r gorau y gallwn ni fod. Magu balchder a hunan-gyfiawnder a wnawn os anghofiwn hyn. Ef yw'r goleuni. Ni yw'r adlewyrchiad egwan, amherffaith.

A chofiwn gyda gostyngeiddrwydd mawr fod yna ddigon o enghreifftiau mewn hanes ac yn y newyddion o hyd sy'n ein hatgoffa y gall y drwg ymrithio a chuddio yng nghysgod glendid a harddwch Eglwys Crist. Cyffeswn fod adegau pan fydd methiannau pobl Dduw yn ei Eglwys fel pe baent yn cuddio'r disgleirdeb ac yn gorchuddio'r llewych.

Felly, os mai patrwm yr Ymgnawdoliad yw'r patrwm o ran cred i'w harddel ac fel moes i'w hefelychu, ni allwn ymddihatru o'r byd.

**Beth yw'n cyfraniad?**

Os ydym yn rhannu'r un byd, yr un amgylchiadau hanesyddol, yr un ofnau, beth allwn ni ei gyfrannu i'r byd?

Efallai, mewn gair, mai'r un peth sydd gan eglwys Iesu Grist i'w gynnig i fyd cythryblus, trafferthus a thywyll yw GOBAITH.

**Gobaith** am ein bod yn credu bod Arglwydd, Crëwr a Phenllywydd y bydysawd heb fod ymhell, heb ymbellhau, heb ymddieithrio, heb golli diddordeb yn ei greadigaeth. 'Canys felly y carodd Duw y byd ...' yw testun ein cred a'n cân.

**Gobaith** am i Grist ddod i'n prynu, i'n cymodi, i'n haileni i 'obaith bywiol' (1 Pedr 1:3 ymlaen). Credwn hefyd ei fod yn awr ar waith, ac y bydd yn dwyn y greadigaeth i undod cyflawn yng Nghrist. Gobaith am ein bod yn disgwyl yng Nghrist 'nef newydd a daear newydd lle mae cyfiawnder yn cartrefu'.

**Gobaith unigryw**

Ac y mae gennym drysor unigryw na all neb arall ei gyfrannu. Gallwn ddwyn ein cymunedau at Dduw trwy weddi. Ni chredwn fod 'gallu' neu 'rym mewn gweddi'. Credwn fod gallu a grym yn eiddo i'r hwn yr ydym yn gweddïo arno. Am hyn y mae gennym **obaith sicr**.

Gobaith am ein bod yn gwybod fod y weddi a weddïwn pan ddywedwn 'deled dy Deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd ...' yn sicr o gael ei gwireddu.

**Tystiolaeth gerbron y byd**

Dyma'r pethau y tystiwn iddynt yn ein hoedfaon bob Sul – hyd yn oed os nad ydym bob amser yn deall hynny!

**Tystiolaeth ymarferol**

Ond yn ymarferol, os ydym wedi'n daearu ym myd ein cymunedau a'n pobl golyga hynny ein bod yn dwyn 'cyfiawnder', 'gobaith' a thosturi ymarferol. Down â gallu Duw. Down â goleuni geiriau grasol i glyw'r trymlwythog a'r digalon. Down â'r Ysbryd Glân o fewn cyrraedd i angen, profiad a realiti ein byw.

A phwy sy'n ddigonol ar gyfer y pethau hyn?

Dim ond eglwys ostyngedig, weddïgar, obeithiol!

*Watcyn James*

## Cyflwyno siec i Elusen Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref (HAHAV)




Bore Sul, 27 Ionawr, pleser oedd croesawu'r Dr Alan Axford, Cadeirydd yr elusen Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch, i wasanaeth yr ofalaeth yng Nghapel y Garn. Yn dilyn gair gan y Gweinidog, y Parch Ddr R Watcyn James, cyflwynodd Mrs Janet Jones, Cadeirydd yr Ofalaeth, siec o £860.50 i Dr Axford er budd yr elusen.

Dewiswyd HAHAV fel elusen yr ofalaeth ar gyfer 2018, gyda chasgliadau oedfaon yr ofalaeth yn cael eu cyflwyno er budd yr elusen. Cafwyd gair o ddiolch gan Dr Axford, ac amlinellodd dwf yr elusen dros y tair blynedd diwethaf hyn. Eleni, amcangyfrifir y bydd gwirfoddolwyr yr elusen yn darparu tair mil o oriau o gymorth i helpu cleifion a'u teuluoedd, a'r gobaith yw ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol drwy agor hosbis dydd yn yr ardal.

Elusen gofrestredig sy'n darparu gwasanaeth Hosbis yn y Cartref yw HAHAV. Mae'n elusen sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr yn gweithio yn y gymuned leol ac yn darparu cymorth ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol i gleifion sy'n byw gyda salwch dwys, yng nghysur eu cartrefi eu hunain.

Dymunwyd yn dda i'r Dr Axford a'i dîm yn y gwaith a chawsom gyfle i weddïo dros yr elusen, ei harweinwyr a datblygiad y gwaith.

Elusen yr ofalaeth ar gyfer 2019 yw Beiciau Gwaed Cymru, a bydd casgliadau oedfaon yr ofalaeth yn cael eu trosglwyddo i'r elusen ddiwedd y flwyddyn.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,***
***Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ***
***01970 880615***
***ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c***

10 Ebrill — Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel y Tabernacl, Trefdraeth, am 1.30 o'r gloch

13 Ebrill — Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion
Capel Seion am 2.30 o'r gloch
Anerchir gan Mrs Llinos Dafis, y Garn

19 Ebrill — Oedfa Gwener y Groglith dan arweiniad y Gweinidog
Capel Seion am 10 o'r gloch

21 Ebrill — Oedfa'r ofalaeth ar fore Sul y Pasg
dan arweiniad y Gweinidog
Capel y Garn am 10 o'r gloch

20 Mai — Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

23 Mai — Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De
Capel Salem, Llandeilo
Anerchir gan: Ruth Gwilym am 2 o'r gloch
Y Parch Aneurin Owen am 5.30 o'r gloch

15 Mehefin — Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Capel y Tabernacl, Aberteifi, am 1.30 o'r gloch

23 Mehefin — Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel Pen-llwyn am 10 o'r gloch

30 Mehefin — Gŵyl yr Ysgolion Sul gyda Meilyr Geraint
Morlan, Aberystwyth, 11.15 am; casgliad at DASH

Gweler hefyd: www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn





Plant yr ysgol Sul yn mwynhau dysgu stori Jona yn festri'r Garn



# Tudalen y Plant

**Llun i'w liwio ar gyfer Sul y Blodau**

**Iesu'n mynd i Jerwsalem ar gefn asyn**



**Ysgol Sul y Garn**

Mae plant yr ysgol Sul yn parhau i gyfarfod yn festri Capel y Garn bob bore y mae'r Gweinidog yn pregethu. Criw bychan sydd yma ond maent yn cael lot o hwyl wrth ddysgu am storïau o'r Beibl mewn ffyrdd creadigol a hwyliog, wrth ganu a chwarae … gan fwynhau'r diod oren a bisgedi ar y diwedd yn arbennig!

Mae croeso mawr i blant newydd ymuno â ni unrhyw bryd—mae bob amser yn braf cael gwneud ffrindiau newydd. Dyma ddyddiadau'r ysgol Sul dros y misoedd nesaf: 14 a 21 Ebrill, 5 ac 19 Mai, 9 ac 16 Mehefin. Byddwn hefyd yn cymryd rhan yn y Gymanfa yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, ar 12 Mai a Gŵyl yr ysgolion Sul yng Nghanolfan y Morlan ar 30 Mehefin.

*Elen Roberts*

**Cymanfa Ganu Unedig**
**Gogledd Ceredigion 2019**

Capel Bethel, Aberystwyth
Dydd Sul, 12 Mai 2019

Cyfarfod y Plant am 10 o'r gloch

Cymanfa'r Oedolion am 5.30 o'r gloch
Arweinydd: Mr Geraint Roberts, Prestatyn

*Rihyrsals ar nos Fercher am 7 o'r gloch,*
*ac eithrio nos Fawrth, 30 Ebrill*

| | |
|---|---|
| 3 Ebrill | Capel y Morfa, Aberystwyth |
| 10 Ebrill | Capel y Garn, Bow Street |
| 17 Ebrill | Seion, Aberystwyth |
| 30 Ebrill | Bethel, Tal-y-bont (**DS** nos Fawrth) |
| 8 Mai | Capel Bethel, Aberystwyth |

Dewch i gefnogi—croeso cynnes i bawb

Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn.
Croeso cynnes i blant o bob oed
– holwch y Gweinidog am fanylion

# Gweiddiau



Drwy gydol y tymor hwn bu trafod a chwestiynu a holi a phendroni wrth i ni gyfarfod o wythnos i wythnos. Ac wrth i ni gyfarfod dros baned (a bisged) ac agor y Beibl daw meysydd cyfoethog rhychwant ein ffydd i'r amlwg.

A dyma fy ngwahoddiad i chi.

Os nad ydych erioed wedi bod mewn grŵp o'r fath, peidiwch â gadael i hynny eich rhwystro. Os teimlwch yn annigonol i drafod cwestiynau, peidiwch â gadael i hynny eich rhwystro.

O hyn i'r Pasg byddwn yn dilyn cwrs Grawys sydd wedi ei baratoi gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae'n cynnwys fideo wedi ei gyflwyno gan Martyn Geraint sy'n cynnig arweiniad i'r drafodaeth. Dewch. Fe fyddwn yn falch o'ch cwmni ac rwy'n sicr y byddwch chithau hefyd yn mwynhau.

Ac os nad ydych yn medru dod yn ystod yr wythnos am eich bod yn gweithio a'ch bod yn dymuno perthyn i grŵp Gwreiddiau gyda'r hwyr, yna, os oes digon o ddiddordeb fe allem sefydlu grŵp cyffelyb. Byddwn yn falch o'r cyfle i gwrdd.

Os oes gennych gwestiynau sydd wedi eich blino, a'ch bod yn meddwl nad oes ateb iddynt; neu os oes gennych gwestiynau yr ydych wedi bod ag ofn eu gofyn; neu os hoffech chi ddeall ein ffydd yn well ... Bore dydd Iau, rhwng 10:15 a 11.30 yng Nghapel y Garn.

Mae'n gwmni braf.

*Watcyn James*

# Oedfaon y Pasg



Dathliadau'r Nadolig, y Pasg a'r Pentecost yw uchafbwyntiau'r calendr i Gristnogion ym mhob cwr o'r byd. Ac un o'r ffyrdd mae'r Testament Newydd yn eu defnyddio i geisio deall arwyddocâd y croeshoeliad a'r atgyfodiad yw ei fod yn gyhoeddiad o fuddugoliaeth Duw dros 'ddiafol, cnawd a byd'. Yn ystod y ddwy oedfa byddwn yn ceisio dirnad o'r newydd pa fath o fuddugoliaeth yw'r fuddugoliaeth a enillwyd.

Ar hyd y canrifoedd mae yna feddylwyr wedi datgan bod neges y groes yn 'ffolineb' ac yn 'dramgwydd'.

A phwy all eu beio? Argyhoeddiad Cristnogion o'r dyddiau cyntaf yw bod Duw wedi gweithredu mewn ffordd gwbl unigryw yn Iesu Grist a bod 'ffolineb' Duw yn ddoethach na'n rhesymu ni. Cyhoeddwyd bod Iesu wedi dod trwy ei groes a'i atgyfodiad yn ddoethineb, yn gyfiawnhad, yn sancteiddhad ac yn brynedigaeth oddi wrth Dduw. (1 Corinthiaid 1:18 ymlaen)

Eleni bydd ein gwasanaethau'n cael eu cynnal fel a ganlyn.

Bydd **Oedfa Gwener y Groglith** yn cael ei chynnal yng Nghapel Seion am 10.00. Bydd yn gyfarfod tawel o ddarlleniadau ysgrythurol, emynau, a llawer o amser i fyfyrio. Rhyw fath o 'Gair a'r Geiriau' i'r Groglith!

Cynhelir **Oedfa'r Pasg** yng Nghapel y Garn am 10.00 ac yn y gwasanaeth hwn cawn gyfle i ddathlu'r fuddugoliaeth ac olrhain ymhellach arwyddocâd y digwyddiad rhyfeddaf fu erioed. O'r cychwyn cyntaf mae Cristnogion wedi deall hyn. Yr Efengyl yw 'sylfaen eich bywyd ac yn foddion eich iachawdwriaeth'.

Os nad atgyfododd Iesu Grist o'r bedd mae'r cyfan yn gelwydd, yn gau, yn ofer: 'gwagedd yw'r hyn a bregethir gennym ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi, a ninnau hefyd wedi ein cael yn dystion twyllodrus i Dduw, am ein bod wedi tystiolaethu iddo gyfodi Crist – ac yntau heb wneud hynny … Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd.' (1 Corinthiaid 15)

Felly, gadewch i ni annog ein gilydd, dathlu gyda'n gilydd a chyhoeddi gyda'n gilydd ryfeddod a mawredd dathliadau'r groes a'r atgyfodiad.

## Ebrill

*Blaenor y Mis: Marian B. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie T Jenkins / Gruffydd Aled Williams*

3 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
Cinio yng Nghrefftau Pennau am 12.30 o'r gloch

**7** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch

8 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o'r gloch

13 Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion
Capel Seion am 2.30 o'r gloch
Anerchir gan Mrs Llinos Dafis

**14** *Sul y Blodau*
Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
Pleidlais i ethol blaenoriaid ychwanegol

19 *Dydd Gwener y Groglith*
Oedfa o fyfyrdod ar y Groglith dan arweiniad y Gweinidog
Capel Seion am 10 o'r gloch

**21** *Sul y Pasg*
Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel y Garn am 10 o'r gloch

**28** Oedfa dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths am 10 o'r gloch

### *Trefnu Cyfarfodydd yn y Garn*

Os byddwch am drefnu i ddefnyddio'r capel neu'r festri,
cysylltwch ag Ysgrifennydd y Garn, Alan Wynne Jones:
ffôn 01970 828163; ebost: alan.jones212@btinternet.com.
Diolch am eich cydweithrediad.






**Cymdeithas Chwiorydd y Garn**

Un o’r aelodau, sef Mrs Shân Hayward, oedd y siaradwraig yng nghyfarfod mis Ionawr, ac fe’i cyflwynwyd gan y Cadeirydd, Mrs Llinos Dafis.

Yng nghyfarfod mis Chwefror, cafwyd cyfle i glywed y bardd a’r llenor Eurig Salisbury yn darllen ac yn trafod rhai o’i gerddi.

# Mai

*Blaenor y Mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Ann Jones / Alan Wynne Jones*

**5** Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

**12** Y Gymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Aberystwyth
Cyfarfod y Plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r Oedolion am 5.30 o'r gloch,
dan arweiniad Mr Geraint Roberts, Prestatyn

**19** Oedfaon dan arweiniad y Gweinidog
Oedfa gymun am 10 o'r gloch yn y Garn
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre, am 5 o'r gloch
Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol

20 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

**26** Oedfa dan arweiniad y Parch Terry Edwards am 10 o'r gloch



Mrs Llio Penri, Yr Arglwydd Elystan-Morgan a Mrs Caryl Gruffydd Roberts, aelodau panel 'Hawl i Holi' Cymdeithas Lenyddol y Garn, gyda'r Cadeirydd, y Parch Richard Lewis

## *Capel y Garn*

**Geni gorwyres**: Ganwyd gorwyres i Dilys a Vernon Jones, Gaerwen, yn ddiweddar – Elliw Nel, merch fach i Delyth a Deian Williams, Fferm Blaen-penlan, Aber-arth. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu oll.

**Aelod newydd**: Yn yr oedfa fore Sul, 3 Mawrth, croesawodd ein Gweinidog aelod newydd i'n plith, sef y Parch W J Edwards. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato, a'n dymuniadau gorau iddo yn y dyfodol.

**Rhyddhau Sengl**: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ffion Evans, sydd newydd ryddhau sengl o'i chân arbennig o'i gwaith ei hun, sef '2013'.

**Diogelu Data**: Diolch yn fawr iawn i bawb sydd eisoes wedi dychwelyd y ffurflenni perthnasol. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny, byddai'r Swyddogion yn gwerthfawrogi cael eich ffurflen cyn gynted ag sy'n bosib, os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr i bawb am eu cydweithrediad.

**Y Tŷ Capel**: Gobeithir y bydd y gwaith adnewyddu ar y Tŷ Capel yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth. Diolch yn fawr iawn i'r Swyddogion hynny sydd wedi gweithio'n ddiwyd er sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei gyflawni mor effeithiol.

**Rhestr Flodau**

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer oedfaon y Garn ar y Sul, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

| **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** |
|---|---|---|
| **7** Noddfa | **5** Nans Morgan | **2** Noddfa |
| **14** Liz Lloyd Jones | **12** Y Gymanfa | **9** Seintwar |
| **21** Mair Jenkins | **19** Gaerwen | **16** Elina / Mary |
| **28** Mair Jenkins | **26** Eryl | **23** Pen-llwyn |
| | | **30** |

## Mehefin

*Blaenor y Mis: D. Elystan Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Marian B Hughes*

**2** Oedfa am 10 o’r gloch yng Nghapel Noddfa

**9** *Sul y Pentecost*
Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**16** Oedfa gymun am 10 o’r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**23** Oedfa’r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog
Capel Pen-llwyn am 10 o’r gloch

**30** Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad y Parch Wiliam Owen

Gŵyl yr Ysgolion Sul gyda Meilyr Geraint
Canolfan y Morlan, Aberystwyth, 11.15 o’r gloch



Ifan Gruffydd, Tregaron, yn annerch yn nathliad Gŵyl Ddewi Cymdeithas Lenyddol y Garn ym Methlehem, Llandre, nos Wener, 15 Mawrth.

Diolch i Margaret Rees a’i thîm am drefnu’r bwyd blasus.

Gwnaed casgliad tuag at Crohn’s & Colitis UK, a throsglwyddwyd £200 i gronfa’r elusen.

## Capel y Garn—Grŵp Help Llaw

Ddiwedd haf 2018, 'ymddeolodd' Mrs Bethan Jones fel arweinydd y Grŵp Help Llaw, a hynny ar ôl bod wrth y llyw am bron i 20 mlynedd.

Sefydlodd Bethan y Grŵp yn y flwyddyn 2000 i gefnogi rhai o wragedd y Garn oedd wedi profi profedigaethau dwys y flwyddyn honno, gan roi cyfle iddynt ddod at ei gilydd ymysg ffrindiau i gymdeithasu dros sgwrs a phaned o de ar brynhawn Mercher. Roedd yn gyfle hefyd i estyn llaw i helpu eraill, a thros y blynyddoedd mae'r grŵp wedi bod wrthi'n dawel ac yn ddiwyd yn cefnogi nifer helaeth o fudiadau ac elusennau, gan wneud gwahaniaeth i lawer iawn o bobl.

Un o'r ymgyrchoedd cyntaf oedd llenwi bocsys sgidiau ag anrhegion o bob math ar gyfer Operation Christmas Child. Byddai Eddie Jones yn llwyddo i ddod o hyd i ddwsinau o focsys gwag o rywle, a mawr fyddai'r bwrlwm yn y festri wrth i aelodau'r Grŵp eu llenwi i'r ymylon. Y flwyddyn gyntaf, anfonwyd 32 o focsys, yn ogystal â nawdd ariannol, i Ddwyrain Ewrop, a gwnaed hynny'n gyson am sawl Nadolig.

Ymgyrch flynyddol bwysig arall oedd Cymorth i Bosnia. Am nifer o flynyddoedd arferai Mr Eric Harries, dyn tân o Aberystwyth, yrru fan fawr yn cynnwys bwydydd a nwyddau hanfodol eraill i Mostar, lle roedd y trigolion yn dioddef yn enbyd yn sgil y rhyfel rhwng Bosnia a Chroatia yn y 1990au. Unwaith eto, byddai Eddie'n cyrraedd y capel yn llwythog o focsys gwag, ond byddent yn orlawn yn cael eu llwytho i fan Eric Harries.

Mae gweu wedi bod yn rhan bwysig o nifer o'r ymgyrchoedd—gweu blancedi, capiau a menig i Oxfam, cywion bach adeg y Pasg, a dillad ar gyfer cartref i blant amddifad yn Lithuania.

Trosglwyddwyd miloedd o stampiau oddi ar amlenni cardiau Nadolig i Oxfam, casglwyd sbectolau at Vision Aid, a newid mân at Water Aid. Cefnogwyd elusennau ymhell ac agos—gan gynnwys y Banc Bwyd lleol.

Felly, diolch yn fawr iawn, Bethan, am y symbyliad a'r gweithgarwch diflino am flynyddoedd lawr. Yn sicr, mae'r grŵp wedi estyn cymorth amhrisiadwy i laweroedd – a phob dymuniad da i'r dyfodol wrth i Mrs Shân Hayward a Mrs Ann Jones gymryd at yr awenau.




Cymorth i Bosnia, Chwefror 2001
Mair, Ray, Eddie, Bethan, Eric a Bryn



Bocsys Operation Christmas Child, Tachwedd 2005
Rhes gefn: Eirlys, Elen, Liz, Eddie, Gwenda, Shân, Marjorie, Lilian a Bethan
Rhes flaen: Betty, Morfydd, Vera, Phyllis a Megan

## Newyddion Seion – Dathlu

Ar Ddydd Gŵyl Dewi cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd yn Seion ar thema eleni 'Dewch, Mae Popeth yn Barod' (Luc 14:15–24) a'r gwasanaeth wedi ei lunio gan chwiorydd Slofenia. Dywedai'r llun ar flaen y daflen, a beintiwyd gan artist o'r wlad, Rezka Arnus, y cyfan am gynnwys y gwasanaeth. Yn ei geiriau hi: 'Roeddwn am gyflwyno dau beth, sef Slofenia'r wlad a'r brif stori Feiblaidd sy'n thema i'r gwasanaeth.' Yng nghanol y darlun gwelir bwydydd traddodiadol y wlad ar liain brodwaith yn arwydd o bryd arbennig, sef grawnwin, polica, math ar deisen doeslyd, a licitar, sef bisgedi siâp calon wedi eu gwneud â mêl, yn fynegiant o gariad. Diolch i'r chwiorydd o Seion a fu wrthi'n coginio'r danteithion hyn i ni gael eu profi gyda phaned cyn y gwasanaeth a gwrando ar fiwsig gwerin y wlad a chydganu gyda'r CD. Yn ganolbwynt i'r oedfa cafwyd bwrdd y wledd wedi ei lenwi â danteithion amrywiol. Mae'r bobl ar ben y llun yn cynrychioli'r gwesteion yn eu dilladau crand ond na ddaethant i'r wledd, ac ar waelod y llun y mae pobl yr ymylon a ymatebodd i'r gwahoddiad. Oedfa fendithiol iawn a digon i fyfyrio arno, a diolch i bob un a gymerodd ran. (Gwelir y llun ar dudalen 21)

Bore Sul, 3 Mawrth, cynhaliwyd Oedfa Gŵyl Ddewi dan arweiniad y Parchedig John Tudno Williams, gyda darlleniad cyfarwydd o'r Apocryffa a phregeth yn seiliedig ar yr adnodau: 'Anfonais chwi i fedi cynhaeaf nad ydych wedi llafurio amdano. Eraill sydd wedi llafurio, a chwithau wedi cerdded i mewn i'w llafur' (Ioan 4.38) a 'Lle na cheir gweledigaeth, bydd y bobl ar chwâl' (Diarhebion 29.18a). Dangoswyd ein dyled fel cenedl i'n gorffennol, a'r un pryd ein hangen am weledigaeth i'r dyfodol. Cafodd y gynulleidfa flas arbennig yn cydganu'r emynau cyfoes, cenedlaethol, a chyfle i ddathlu dydd ein nawddsant gyda naws briodol iawn.

Nos Fercher, 6 Mawrth, ymgasglodd aelodau Cymdeithas y Paith yn Nhafarn yr Halfway, Pisga, i ddathliad arall dan arweiniad medrus y Llywydd, John Gwynn Jones, ac yng nghwmni'r gŵr gwadd o Langrannog, Mr Jon Meirion Jones. Y Parchedig Watcyn James a offrymodd y Gras Bwyd. Wedi gwledda ar swper traddodiadol, blasus dros ben, cawsom ein difyrru gan Jon Meirion yn sôn am ddoniau a helyntion 'Bois y Cilie' ond yn bennaf am Tydfor fel bardd ac amaethwr gan ddyfynnu'n helaeth o'i gampweithiau barddol a rhannu â ni lawer tro trwstan yn ei hanes. Beirniadodd y ddwy gystadleuaeth yn feistrolgar, ac enillydd y Limerig a'r Frawddeg oedd John Owen, Troedrhiwlasgrug.

Tri dathliad amrywiol a gwahanol iawn ond digon teilwng a ddaeth â chymdeithas eang ynghyd.

*Ina Tudno Williams*



Rhai o'r merched a gymerodd ran yn y gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel Seion, a bwrdd y wledd 'Dewch—mae popeth yn barod'



## Pen-llwyn

### Sul y Teulu

Ar 13 Ionawr, roedd yn Sul y Teulu yma ym Mhen-llwyn, dan arweiniad y Parch Ddr Watcyn James. Roedd y festri yn orlawn a'r plant a'u rhieni yn mwynhau'r wledd a baratowyd gan ein Gweinidog.

Cafwyd film ar y dechrau, a'r plant yn meithrin eu sgiliau sylwgar. Yna cafwyd cwis ar y llyfrau sanctaidd, a'r oedolion a'r plant wedi'u rhannu ac yn awyddus i ennill marciau uchel i'w timau ac yn dysgu llawer yn ogystal.

Roedd thema'r oedfa wedi ei seilio ar Salm 119, adnod 105: 'Y mae dy air yn llusern i'm troed ac yn oleuni i'm llwybr'. Mor aml y ceisiwn ymlwybro ymlaen yn ein goleuni ein hunain ac anwybyddu Gair Duw a fyddai'n ein cadw ar y llwybr cywir. Cyn diwedd y gwasanaeth roedd pob plentyn yn medru adrodd yr adnod ar ei gof. Gwasanaeth gwerth chweil i bob un, a'r clod i gyd i Dduw.

Ar 16 Ionawr cawsom y pleser o groesawu'r Henaduriaeth i Ben-llwyn ar brynhawn oer, gaeafol. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Dr Watcyn James. Daeth nifer sylweddol ynghyd dan lywyddiaeth Mrs Margaret Daniel, ac yna trosglwyddwyd y llywyddiaeth i Mrs Iola Alban, a diolchodd i'w rhagflaenydd am ei gwasanaeth ar hyd y flwyddyn.

Ar ol sesiwn hir, roedd pawb yn barod am gwpanaid o de ar ddiwedd y cyfarfod ac ni chawsant ei siomi. Roedd chwiorydd Llwyn-y-groes, y Dyffryn a Phen-llwyn wedi sicrhau ychydig ddanteithion ar eu cyfer. Trosglwyddwyd cyfraniadau'r bwrdd te i elusen y Gwahangleifion.

## Grŵp Help Llaw Capel y Garn

Hyd at y Pasg, bydd y Grŵp Help Llaw yn casglu nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Aberystwyth. Bydd bocsys wedi eu gosod yn y capel a'r festri ar gyfer derbyn cyfraniadau. Mae'r Banc Bwyd angen bwydydd mewn tiniau, grawnfwyd a deunydd hylendid.

DIM PASTA na FFA POB ar hyn o bryd.

Diolch yn fawr,

Shân ac Ann

## Dydd Gweddi'r Byd



Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd eleni yng Nghapel y Dyffryn, Goginan, nos Wener, 1 Mawrth, gydag aelodau capel Llwyn-y-groes a Phen -llwyn yn ymuno â chwiorydd y Dyffryn. Mrs Anne Mason Davies oedd llywydd y noson, a chan mai gwragedd Slofenia oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth, priodol iawn oedd gwahodd Mrs Llio Adams i'n hannerch. Mae merch Llio, sef Lydia, yn cenhadu yn Slofenia fel gweithiwr IFES Interaction ym Mhrifysgol Ljubljana. Cawsom hanes y wlad a'r gwaith mae Lydia ac eraill yn ceisio'i gyflawni o ddydd i ddydd. Mae Dydd Gweddi'r Byd yn fudiad ecwmenaidd sy'n cael ei arwain gan ferched. Bob blwyddyn byddwn yn edmygu cryfder y cymunedau sy'n cymryd rhan, byddwn yn uniaethu â'u pryderon ac yn cael ein hannog gan eu ffydd gadarn.

Thema'r noson oedd 'Dewch, Mae Popeth yn Barod'. Cawn yr hanes yn Efengyl Luc a chofiwn fel y bu i'r gwahoddedigion ymesgusodi a gwrthod y gwahoddiad i'r wledd.

Cofiwn am wragedd Slofenia sy'n rhannu'r efengyl ymhlith eu pobl, a gwnawn yn siŵr na cheir ninnau yma yng Nghymru yn ymesgusodi rhag gwahoddiad yr Efengyl tra mae'n ddydd arnom. Ni ddylem fod yn dawel yn wyneb anghyfiawnder, a gweddïwn y bydd Duw yn agor calonnau pob un i dosturi a dealltwriaeth, yn ein herio ac yn fendith inni i gyd.

Cawsom amser i gymdeithasu ar ddiwedd y noson, ac roedd chwiorydd y Dyffryn wedi paratoi'n helaeth ar ein cyfer a Llio wedi paratoi bisgedi mêl sy'n boblogaidd yn Slofenia.

*Heulwen Lewis*

## Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Phil Thomas, Llandre, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar 8 Ionawr, a chafwyd ganddo hanesion diddorol am ei waith a'i yrfa fel milfeddyg. Ar ôl graddio o Goleg RVC yn Llundain, treuliodd rai blynyddoedd yn gweithio yn Llanymddyfri, Pen-y-bont ar Ogwr a Glantwymyn, cyn treulio tair blynedd gyda'r VSO yn Cambodia. Ar ôl dychwelyd oddi yno bu'n gweithio am gyfnod yn Peebles yn yr Alban cyn ymuno â phartneriaeth Milfeddygfa Ystwyth yn Llanbadarn yn 1999. Diolchwyd iddo am brynhawn diddorol, ac yna mwynhawyd te a chacen wedi eu paratoi gan Bethan Davies a Carys Briddon.

Y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar 12 Chwefror oedd Stuart Evans o'r Borth sydd wedi gweithio yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth, ers 1976. Mae hefyd yn arlunydd sy'n gwneud ysgythriadau ac yn creu torluniau leino wedi'u lliwio â llaw. Nid sôn am ei waith fel arlunydd a wnaeth yn ystod y prynhawn, ond cawsom ganddo ychydig o hanes yr Amgueddfa a daeth â llond bocs o hen greiriau o'r Amgueddfa i'w dangos gan ofyn inni ddyfalu beth oeddynt. Bu tipyn o ddyfalu ynglŷn â rhai o'r creiriau ac ar ôl iddo ddatgelu beth oeddynt, diddorol oedd deall at ba bwrpas y'u defnyddid yn y dyddiau a fu. Diolchwyd i Stuart Evans am brynhawn diddorol iawn, a mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Mona Rowlands a Meinir Fleming.

Jez Danks oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod ar 12 Mawrth, ac yn ystod y prynhawn adroddodd ychydig o'i hanes yn fachgen ifanc yn Lloegr, sut y daeth i Gymru yn 1971, a phenderfynu aros yma. Cafodd yrfa wahanol a diddorol yng Ngheredigion dros y blynyddoedd, a dysgodd siarad Cymraeg yn rhugl. Cawsom glywed ei ddawn gerddorol hefyd wrth iddo chwarae nifer o ddarnau ar y ffidil. Ar ôl talu'r diolchiadau, mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jones a Non Griffiths.

*Carys Briddon*

### Eiddo coll

Gadawyd pâr o fenig lledr brown (merch) yn y Garn yn gynharach eleni, ac os gwyddoch pwy yw eu perchennog, cysylltwch â Marian, os gwelwch yn dda.

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn



Ar ddydd Gwener, Mawrth 1af, daeth chwiorydd y Garn a Chapel Noddfa at ei gilydd yng Nghapel y Garn i ddathlu Dydd Gweddi'r Byd gan gyflwyno rhaglen oedd wedi ei pharatoi eleni gan Chwiorydd Cristnogol Slofenia dan y teitl 'Dewch – Mae Popeth yn Barod'. Gwahoddiad i wledd o gariad Crist oedd craidd y gwasanaeth a roddodd gipolwg i ni yn ogystal ar fywyd merched yn Slofenia. Yn ystod y gweithgareddau rhannwyd carnasiwns coch (blodyn sy'n gyffredin yn Slofenia) a, diolch i Shân Hayward, cawsom hefyd brofi bisgedi mêl danteithiol Carniola. Cafwyd te a chacennau Gŵyl Ddewi i ddilyn yn y festri.

### *Bethlehem, Llandre*

Os byddwch am drefnu i logi Bethlehem, cysylltwch â:
Mrs Nans Morgan, Dolgwiail, Llandre; rhif ffôn: 828487;
ebost: nansmorgan@btinternet.com.

## Gofalwr

Diflannodd yr hers ar frys dros y rhiw,
A'r teulu'n tindroi ar y tarmac glân,
Y gŵr yn y cut yn rhoi tân i'w bib
A hoe i dacluso yr arfau mân.

Rhoes drefn ar flodau a ddaliodd y gwynt
A chymhennu'n ei bwyll fan hyn, fan draw
Gan ddarllen rhybuddion y meini mud
Cyn i'r torrwr beddau lanhau ei raw.

Dadebrodd i erlid rhyw asyn strae,
A chlodd y llidiart yn yr haul prynhawn,
Tra'n gadael y llan i flodeuo fel gardd
Mewn Grawys arall a'r beddau'n llawn.

*Vernon Jones*

Cartref Tregerddan
BBQ yn y Cartref
Nos Wener, 21 Mehefin
am 6.30 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

(Llun y clawr gan Upyernoz, CCA2.0G)

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Janet Jones, Nasareth
*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street,
Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **9 Mehefin:**

Mr Dewi G Hughes
dewinerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com